

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.7 Cyflwyniad i gaffael



Cipolwg

Mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector yn ceisio amrywio eu ffynonellau incwm drwy ymgorffori strategaethau a thechnegau a fydd yn sicrhau sylfaen gynaliadwy o gyllid iddynt. Mae cyflenwi nwyddau neu wasanaethau dan delerau contract yn un o'r nifer o ddewisiadau y gellir ei ystyried er mwyn creu incwm.

Mae'r mwyafrif o fudiadau trydydd sector sy'n cyflenwi contractau yn gwneud hynny ar gyfer y sector cyhoeddus. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi cipolwg ar gaffael yn y sector cyhoeddus

Beth yw caffael?

Bob blwyddyn, mae'r sector cyhoeddus yn prynu nifer fawr o nwyddau a gwasanaethau o ffynonellau allanol. Gallai hyn gynnwys cyflenwadau sylfaenol ar gyfer gwasanaethau arbenigol neu dalu contractwyr i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid ar ei ran. Gelwir y broses o ganfod a phrynu'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn yn gaffael.

Diffinnir caffael fel prynu nwyddau a gwasanaethau oddi wrth drydydd parti dan delerau contract cyfreithiol-rwymol lle mae'r holl amodau sy'n angenrheidiol i lunio contract wedi'u bodloni. Mae caffael hefyd yn ymwneud â'r prosesau a'r systemau i reoli'r drefn o gael nwyddau a gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd.

Prynu a'r sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn gyfres o is-sectorau sy'n cyflwyno'n uniongyrchol neu'n hwyluso i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus allweddol i ddinasyddion. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys llywodraeth leol, ranbarthol a chanol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a sefydliadau a chyrrff cyhoeddus eraill sy'n gysylltiedig â gwaith y llywodraeth.

Mae caffael yn broses sy'n esblygu yn y sector cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf datblygwyd mesurau arferion da er mwyn annog y trydydd sector i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus oherwydd y cydnabyddir fwyfwy bod gan sefydliadau'r trydydd parti'r potensial i fod yn rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r datblygiadau hyn wedi cynnig amrywiol gyfleoedd gan gynnwys cyflenwi gwasanaethau megis:

- Cynlluniau cludiant cyhoeddus
- Gofal seibiant neu ofal dydd
- Triniaeth neu therapïau iechyd
- Prydau ar glud
- Cynlluniau ailgylchu

Gyda chaffael sector cyhoeddus yn ymwneud hefyd â defnyddio adnoddau ariannol yn effeithiol a gweithio a chydweithio gydag eraill, mae'n rhaid i fudiadau'r trydydd sector allu dangos eu gwerth ychwanegol wrth iddynt dendro am gcontractau.

Rheoliadau prynu a chaffael

Gan fod prynu yn y sector cyhoeddus yn golygu gwario arian trethdalwyr, mae prosesau caffael yn rhwym wrth reolaethau caeth. Ceir deddfau DU ac Ewropeaidd sy'n diffinio sut y mae'n rhaid i'r sector weithredu ac mae popeth yn ddarostyngedig i archwiliad a chraffu. Rhaid i'r prynu gael ei wneud mewn ffordd deg ac agored fel na chaiff neb ei gau allan yn annheg o'r broses. Rhaid i'r sector cyhoeddus hefyd ddangos bob amser bod unrhyw beth mae'n ei brynu o fudd i'r cyhoedd a'i fod yn cynnig y gwerth gorau am arian cyhoeddus.

Serch hynny, mae'r modd yr ymdrinnir â chaffael ar draws y sector cyhoeddus yn amrywio. Gyda'r angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn hyblyg yn unol â'u hamgylchiadau eu hunain, nid oes un dull sengl na safonol o brynu. Mae llawer o sefydliadau sector cyhoeddus wedi datblygu eu gweithdrefnau, eu safonau a'u protocolau eu hunain o fewn y fframwaith deddfwriaethol ac mae'n bwysig bod sefydliadau trydydd sector sy'n ystyried cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn ymgysylltu ac yn ymgysylltu gyda'r sefydliad sector cyhoeddus perthnasol o'r dechrau un.

Gwerthoedd ac amcanion y sector cyhoeddus

Isod ceir cipolwg ar y gwerthoedd a'r amcanion craidd sy'n gysylltiedig â chaffael sector cyhoeddus. Gallai deall y sbardunau hyn gynorthwyo sefydliadau trydydd sector i wella eu siawns o lwyddo wrth dendro am gcontractau sector cyhoeddus.

- Gwerth am arian – Nid yw hyn bob amser yn golygu am y pris isaf. Ffafrir yn aml sefydliadau sy'n gallu dangos gwerth ychwanegol am bris uwch. Er enghraifft mae'n bosib bod sefydliad yn gallu dangos arbedion cost mewn man arall neu fod yn gallu sicrhau gwelliannau megis cyfle cyfartal neu ffocws ar anghenion unigol neu gymunedol.
- Cynaliadwyedd – Rhaid i'r gwasanaethau a bryna'r sector cyhoeddus fod yn gynaliadwy. Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn hyderus yng ngallu sefydliad i ddatblygu, prynu a chyflwyno'r gwasanaeth gydol oes y contract. Rhaid i

sefydliadau ddangos sut y gallent newid ac addasu gwasanaethau i fodloni galw, anghenion a gofynion deddfwriaethol newidiol.

- Budd cymunedol – Mae'r sector cyhoeddus yn ymwneud fwyfwy gyda'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o ddarpariaeth eu gwasanaethau. Mae'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i gynorthwyo'r sector cyhoeddus i gyrraedd eu targedau o wella ansawdd bywyd i bawb.

Y broses caffael

Er bod y dulliau o fynd ati i gaffael yn amrywio ar draws y sector cyhoeddus, dilynir y broses isod fel rheol pan mae penderfyniad wedi'i wneud i gynnig tendr cystadleuol ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau.

1. Diffinio'r strategaeth caffael

Mae'r prynwr yn diffinio ei nodau, penderfynu beth sydd ei angen, paratoi achos busnes ac yna'n penderfynu sut y cyflawnir yr ymarfer caffael. Bydd yn ystyried amodau'r farchnad, deddfwriaeth a pholisi sector cyhoeddus.

2. Gwahodd tendrau

Gwahoddir cyflenwyr i gyflwyno cynnig, neu dendr. Gwneir hyn, fel arfer, drwy gyfrwng hysbyseb neu hysbysiad tendro. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i gyflenwyr rag-gymhwyso cyn cael eu gwahodd i dendro. Gwnânt hyn drwy ateb holiadur (PQQ) neu gyflenwi gwybodaeth am eu statws ariannol, profiad blaenorol, geirdaon ayb.

3. Arfarnu tendrau

Mae tendrau'n cael eu harfarnu yn erbyn meini prawf penodol. Mae'r broses hon, fel arfer, yn cynnwys cyfnod i egluro'r tendr.

4. Dyfarnu'r contract

Mae'r prynwr wedyn yn dyfarnu'r contract i'r cyflenwyr y mae ei fid yn cynnig gwerth am arian neu'r un y mae ei fid yn bodloni meini prawf y contract orau.

5. Rheoli sut y rhoddir y contract ar waith

Mae pawb sy'n ymwneud â'r broses yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu'r gweithrediadau ar gyfer y contract arfaethedig.

6. Rheoli'r contract

Mae'r cyflenwr a'r prynwr yn rheoli'r contract, gyda pherfformiad y cyflenwr yn cael ei archwilio a'i fonitro.

7. Adolygu a phrofi

Adolygir yr angen am y contract yn rheolaidd ac ar ôl cyfnod penodol o amser, gellid hysbysebu'r contract eto.

Gwybodaeth bellach

Taflenni gwybodaeth

3.7 Comisiynu

3.8 Contractau

7.7.1 Cyflwyniad i dendro

7.7.2 Ysgrifennu a chyflwyno tendrau

7.7.3 Costio eich tendr

Y broses gaffael

- Bwriad cyhoeddiad NCVO 'Before signing the dotted line' yw mynd drwy'r rheolau, y gweithdrefnau a'r ymarferion cymhleth sy'n rhan o broses gaffael y sector cyhoeddus. Mae ar gael i'w lwytho i lawr oddi ar www.ncvo-vol.org.uk
- www.supplyinggovernment.gov.uk yw gwefan Swyddfa Masnach y Llywodraeth, ac mae'n rhoi golwg fanwl ar gaffael sector cyhoeddus.
- Mae '*Think smart – think voluntary sector!*' gan y Swyddfa Gartref a Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn arweiniad arferion da a fwriedir ar gyfer y sector cyhoeddus ond mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i sefydliadau'r trydydd sector.

Llywodraeth Cymru

- *Budd i'r Gymuned: Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru* (Ebrill 2010). Dulliau y caiff pobl sy'n caffael eu hannog i'w defnyddio er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol trwy gynnwys budd i'r gymuned yn eu gwaith caffael.
- *Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus* (Rhagfyr 2009). Cam nesaf rhaglen gwella gwasanaethau cyhoeddus. *Caffael a Chanllawiau'r Trydydd Sector ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru* (Mawrth 2008). Cyngor i'r sawl sy'n caffael yn y sector cyhoeddus ar weithio gyda'r trydydd sector wrth chwilio am werth am arian.
- Mae'r canllaw Cynllunio Caffael sydd ar gael yn www.buy4wales.co.uk yn rhoi manylion y broses caffael ar gyfer gwasanaethau a nwyddau cyffredin yn ogystal ag ambell faes arbenigol.

Ochr gyfreithiol

- Mae *CC37 Elusennau a darparu gwasanaeth cyhoeddus* a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau, yn nodi'r ystyriaethau ar gyfer elusennau wrth ymgymryd â chontract. Gellir ei llwytho oddi ar www.charity-commission.gov.uk
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch goblygiadau treth at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
0845 302 0203
www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm

Cefnogaeth

- Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ystod eang o faterion ariannol a chyllido gan gynnwys tendro. Gweler y daflen wybodaeth '1.7 Lle i fynd am gymorth' i gael manylion eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.

- Mae Porth Cyllido Trydydd Sector Cyllid Cynaliadwy Cymru yn siop un-stop ar gyfer cyngor a chyfleoedd cyllido.
www.sustainablefundingcymru.org.uk
- Mae tîm 3-SET WCVA yn rhoi arweiniad ar dendro ar gyfer cyfleoedd a ariennir gydag arian Ewrop.
0800 2888 329
3SET@wcva.org.uk
- Nod Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cymru yw rhoi cyfle gwell i fusnesau o bob sector ennill contractau'r sector cyhoeddus.
www.business-support-wales.gov.uk


Hyfforddiant

- *Cyflwyniad i dendro* – manylion cwrs rhagarweiniol undydd sydd ar gael yn
www.coursesforcommunities.org.uk
- *Sut mae tendro* – mae manylion cwrs deuddydd ymarferol yn dilyn y camau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu a chyflwyno tendr ar gael yn
www.sustainablefundingcymru.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p>Mantell Gwynedd 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB Elusen Gofrestredig: 1068851</p> <p>Ffôn: 01286 672626 ymholiadau@mantellgwynedd.com Ffacs: 01286 678430 www.mantellgwynedd.com</p>	
<p>Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011</p>	<p>Ffôn: 0800 2888 329 www.wcva.org.uk</p>